

CYFARFOD	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD	18 Ionawr 2024
TEITL	Cyfrifon Terfynol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 a'r Archwiliad perthnasol
PWRPAS	Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none">Datganiad o'r Cyfrifon ôl-archwiliad;Adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru;Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1).
ARGYMHELLIAD	Ystyried a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr
AWDUR	Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid

1. CYFRIFON 2022/23

Llwyddodd y Cyngor i gwblhau'r Datganiad o'r Cyfrifon ar gyfer 2022/23 a'i ryddhau i Archwilio Cymru ar 30 Mehefin 2023. Cyflwynwyd y Datganiad o Gyfrifon 2022/23 (amodol ar archwiliad) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 7 Medi 2023, pryd bu craffu priodol.

Mae'r cyfrifon terfynol yn dilyn archwiliad yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 18 Ionawr 2024.

2. ARCHWILIAD GAN ARCHWILIO CYMRU AR RAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Nodwyd yng nghyfarfod Medi fod y cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, a chyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar eu prif ddarganfyddiadau.

3. DATGANIADAU ARIANNOL ÔL-ARCHWILIAD AM 2022/23

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2022/23. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn rhan 14 ac Atodiad 3 o adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru.

4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried a chymeradwyo'r –

- Adroddiad 'ISA260' gan Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd
- Datganiad o'r Cyfrifon 2022/23 (ôl-archwiliad)

5. LLYTHYR CYNRYCHOLAETH

Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth, yn electronig eto eleni (Atodiad 1 i adroddiad Archwilio Cymru) wedi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r uchod.

6. TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD PENODEDIG

Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Adrian Crompton) yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon.